



GWELLA SAFON Y Ffordd
BRENNOL I GYFATEB Â
GOFYNION PRIFFORDD, GAN
GYNNWYS GOSOD CROESFAN
“TWCAN” A’R GWAITH
CYSYLLTIEDIG.

CYFEIRIAD Y SAFLE;
TIP LANE/FFORDD ISA
PRESTATYN, SIR DDINBYCH

Y TÎM A WNAETH Y GWAITH

**Hollingsworth Bros
UK Cyf**

Y CLEIENT

**ANWYL
CONSTRUCTION**

GWERTH

£850,000

YMGYNGHORWYR

REFA CONSULTING ENGINEERS

MANYLION

Prif nod y prosiect yma oedd gosod ffordd newydd yn lle’r ffordd/llwybr tarmac un lôn oedd yno ar y pryd. Byddai’r ffordd newydd yn cyfateb â holl ofynion yr asiantaeth Priffyrdd, gyda llwybr seiclo’n cysylltu’r holl lwybrau seiclo lleol. Roedd y gwaith hefyd yn cynnwys gosod system ddraenio newydd 1050mm o ddiamedr yn lle’r system ddraenio SW oedd yno’n barod, a gosod yr un newydd yn unol â “Sewers For Adoption 6th edition”.

Gwnaed y gwaith mewn tri cham gan olygu bod ffordd drwodd i’r holl drigolion a busnesau lleol, yn arbennig at y cyfleuster ailgylchu gwastraff oedd i aros yn agored 7 diwrnod yr wythnos. Llwyddwyd i wneud hyn drwy ffurfio ffordd darmac dros dro at y datblygiad tra bo’r gwaith o adeiladu’r briffordd yn digwydd.

Roedd canran mawr o’r gwaith yma’n gofyn cau’r ffordd am gyfnod ar y gyffordd rhwng Tip Lane a Ffordd Isa. Roedd yn rhaid gwneud hyn i adael i’r holl wasanaethau gael eu dargyfeirio/ gostwng ac hefyd i osod yr holl ddwythellau a llewys ar gyfer y “Groesfan Twcan” oedd i gael ei hadeiladu.

Gwnaed y gwaith i gyd yn unol â’r manylebau cyfredol i asiantaethau gan yr adran Briffyrdd ac hefyd o dan arolygiaeth dynn adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych. Roedd Hollingsworth Bros yn gyfrifol am ymdrin â’r holl drwyddedau perthnasol/agor ffyrdd ac ati ac hefyd am gysylltu gyda darparwyr gwasanaethau cyhoeddus mewn perthynas â dargyfeirio.





Adeiladwyd y Brif Ffordd Gerbydau gan ddefnyddio dulliau gosod arwyneb traddodiadol ac i gyfateb â gofynion yr asiantaeth Briffyrdd a Chyngor Sir Ddinbych. Gwnaed yr elfen hon o'r gwaith ar ran Hollingsworth Bros gan H Howatson (Rhan o'r Grŵp Gosod Tarmac).



Rhoddyd arwyneb Gwrth-Lithro Arbenigol ar bob ffordd sy'n teithio tuag at y Gyffordd/Groesfan. Gwnaethpwyd y gwaith yma gan gwmni marciau ffordd L&R.



Gwnaethpwyd yr holl waith gwrthgloddiau, draenio, dwythellau, cyrbau a ffurfiannau gan ein gweithlu medrus ni'n hunain. Mae pob un ohonynt wedi eu hyfforddi i fedrau'r Ddeddf Ffyrdd a Gwaith Stryd Newydd, gan gynnwys y lefel oruchwyllo. Oherwydd natur y tir presennol, fe adeiladwyd rhai darnau o'r briffordd newydd gan ddefnyddio defnydd matiau geotecstil, a osodwyd yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr.

Gosodwyd y groesfan "TWCAN" a'i chomisiynu ar ran Hollingsworth Bros gan TRAFFIC Systems Co-operative Limited. Gwnaethpwyd yr holl waith adeiladu ar gyfer y groesfan gan Hollingsworth Bros, gan gynnwys gosod y rheiliau "VISI", ac roedd hyn yn cynnwys rhywfaint o waith tu allan i oriau er mwyn osgoi amharu ar ysgolion/busnesau lleol wrth gloddio ar draws y briffordd.



Gosodwyd goleuadau ac arwyddion stryd newydd ar ran H Bros gan Gyngor Sir Ddinbych yn uniongyrchol o dan arweiniad rheolwyr H Bros.

RHAGLEN

Cwblhawyd y rhaglen wreiddiol o 16 wythnos o fewn yr amser gofynnol gyda rhywfaint o waith gosod arwyneb ychwanegol ar Ffordd Isa'n hwyrach ymlaen yn ôl cais Cyngor Sir Ddinbych.

BODDHAD Y CLEIENT

Llwyddwyd i wneud y gwaith i gyd gyda'r amhariad lleiaf posibl i drigolion/busnesau lleol ac i'r ysgol gynradd leol.

Cwblhawyd y ffordd newydd a'r groesfan ac roeddent yn gwbl weithredol ac yn barod i'w defnyddio ar y diwrnod yr agorodd yr ysgol gynradd ar ôl gwyliau'r hanner tymor er boddhad yr awdurdod lleol a'r pennaeth.

Llwyddwyd hefyd i gwblhau'r ffordd fynediad newydd oedd yn arwain i'r datblygiad adeiladu oedd ar y gweill a hynny o fewn yr amser gofynnol gan olygu bod Anwyl Construction yn gallu parhau gyda'u rhaglen adeiladu.

Hollingsworth Bros (UK) Cyf
St. Ives Way
Engineer Park
Sandycroft
Sir y Fflint CH5 2QS

Ffôn: 01244 539922

Ffacs: 01244 538504

www.hollingsworthgroup.co.uk